

Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



6. Cyflogi a rheoli pobl

6.16 Polisi cyhuddo(Whistleblowing)

Mae'r darpariaethau a nodir yn Neddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn diogelu mwyafrif y gweithwyr rhag niwed gan eu cyflogwyr. Gall niwed o'r fath gymryd sawl ffurf, megis gwrthod dyrchafiad, cyfleusterau neu gyfleoedd hyfforddiant. Gall y gweithwyr a ddiogelir gan y darpariaethau hawlio yn erbyn diswyddiad annheg os diswyddir hwy am wneud datgeliad a ddiogelwyd. Nid yw gweithwyr heb eu cyflogi yn medru hawlio diswyddo annheg; fodd bynnag, os terfynir eu cytundeb oherwydd datgeliad a ddiogelwyd, gallant gwyno eu bod wedi profi niwed.

Bydd polisi a dulliau gweithredu clir ar gyfer codi pryderon yn helpu lleihau risg cam-drin y pryderon hynny, a sicrhau na fydd gweithwyr yn profi ôl-ffeithiau croes am gyhuddo.

Mae'r canlynol yn enghraifft o bolisi cyhuddo, a dylid ei addasu ar gyfer eich mudiad. Canllaw yw yn unig, ac ni ddylid edrych arno fel datganiad awdurdodol o'r gyfraith.

Polisi enghreifftiol

Mae *<enw'r mudiad>* wedi ymrwymo i safonau uchaf gonestrwydd, cywirdeb ac atebolrwydd. Yn unol â'r ymrwymiad yma mae *<enw'r mudiad>* wedi gweithredu'r polisi a'r dulliau yma i ymdrin â'r gwir bryderon gan weithiwr am gam-drin posib o fewn y mudiad.

Wrth arddangos yr ymrwymiad yma, mae *<enw'r mudiad>* yn annog ei weithwyr sydd â phryderon difrifol am unrhyw gam-drin o fewn y mudiad i fynegi eu pryderon.

Yn bennaf mae'r polisi ar gyfer pryderon ble mae buddiannau eraill neu'r mudiad mewn perygl. Gall unrhyw weithiwr sy'n codi pryderon wneud hynny'n ffyddiog ar sail gyfrinachol heb ofni dial neu erledigaeth.

1. Cefndir

Mae'r polisi yn adlewyrchu gofynion o fewn Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (y 'Ddeddf') sy'n darparu diogelwch ar gyfer unigolion sydd yn datgelu gwybodaeth am gam-drin posib yn y gwaith, a bod:

- Y wybodaeth a ddatgelir yn ddiidwyll.
- Eu bod yn rhesymol gredu fod y wybodaeth ac unrhyw honiad o'i fewn yn wir yn sylweddol.
- Nid yw'r gweithiwr yn gweithredu'n faleisus neu'n gwneud honiadau ffug.
- Nid yw'r gweithiwr yn gweithredu ar gyfer ei fudd personol.

Mae'r 'Ddeddf' yn diogelu datgeliadau gwybodaeth parthed un neu fwy o'r canlynol:

- trosedd gyfreithiol
- toriad rhwymedigaeth cyfreithiol
- camwedd
- perygl i iechyd a diogelwch unrhyw unigolyn
- niwed i'r amgylchedd; neu
- warchod bwriadol unrhyw wybodaeth sy'n tueddu dangos unrhyw un o'r pump uchod.

Bwriad y polisi yw ei ddefnyddio gyda honiadau sy'n debygol o niweidio enw da <enw'r mudiad>. Dylid ymdrin â phob mater arall drwy'r polisi mwyaf addas.

2. Dull gweithredu

Dylai gweithwyr sydd eisiau gwneud datgeliad wneud hynny i'w rheolwr llinell yn y man cyntaf. Os yw'r datgeliad am y rheolwr llinell, dylid ei wneud i <rhoch enw, yn ddelfrydol rheolwr uwch>.

Ni fydd <enw'r mudiad> yn caniatáu aflonyddu neu erledigaeth unrhyw un sy'n nodi gwir bryder; serch hynny, mae <enw'r mudiad> yn cydnabod y bydd y gweithiwr eisiau nodi'r pryder yn gyfrinachol dan amodau'r polisi yma, ac ni ddatgelir enw'r gweithiwr heb ei ganiatâd. Fodd bynnag, mewn sefyllfaoedd ble nad ellir datrys pryderon heb ddatgelu enw'r gweithiwr (er enghraifft os oes angen eu tystiolaeth yn y llys), trafodir y mater gyda'r gweithiwr a sut neu os gall <enw'r mudiad> fynd yn ei flaen.

3. Ymchwiliad

Bydd y person sy'n derbyn gwybodaeth am y datgeliad yn ystyried y wybodaeth a phenderfynu ar ffurf yr ymchwiliad. Bydd unrhyw ymchwiliad yn cael ei drin yn sensitif ac yn gyflym cyn belled â phosib. Rhoddir gwybod i'r gweithiwr yn ysgrifenedig am amserlen yr ymchwiliad.

(DS Efallai bydd mudiadau eisiau cynnwys yma unrhyw fanylion pellach am sut y bydd yr ymchwiliad yn cymryd lle, ond mae'n werth cofio fod gwahanol ddatgeliadau yn gwarantu ymchwiliadau gwahanol.)

Gwybodaeth bellach

ACAS

Ffôn: 08457 474747

www.acas.org.uk

Rheolydd Elusennau Cymru a Lloegr

CC47 - Cwynion am Elusennau

Ffôn: 0845 3000 218

www.charitycommission.gov.uk

Tŷ'r Cwmnïau

Ffôn: 0870 333 636

www.companies-house.gov.uk

Department for Business, Enterprise and Regulatory Reform (formerly DTI)

Ffôn: 020 7215 5000

www.berr.gov.uk

Chartered Institute of Personnel and Development

Ffôn: 020 8612 6200

www.cipd.co.uk

Public Concern at Work

Ffôn: 020 7404 6609

www.pcaw.co.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Medrwn Môn

Neuadd y Dref, Sgwâr Bulkeley, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7LR
Elusen Gofrestredig: 1088828

Ffôn: 01248 724944

post@medrwnmon.org

Ffacs: 01248 750149

www.medrwnmon.org

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 26/08/2011



Ffôn: 0300 111 0124
www.wcva.org.uk